Bu traddodiad hereticaidd sydd wedi bod yn fwrn ar Gristnogaeth bron ers ei dechreuad ac a adwaenid o dan enwau gwahanol ar wahanol adegau – Deuoliaeth, Gnosticiaeth, Maniceaeth, Albigensiaeth, Janseniaeth, ac ati. Un o'r elfennau allweddol fu gweld y greadigaeth faterol ddrwg ac yn rhwystr i'w oresgyn yn y frwydr i ryddhau ein hysbryd fel y gall godi i'r nefoedd. Er nad hon erioed fu dysgeidiaeth uniongred yr Eglwys, sy'n cyfeirio at greadigaeth dda o syrthiedig yn ei hanfod a brynwyd yng Nghrist, dylanwad yr heresi hon yn gryf.

Digwydd bod, mae’r urdd yr wyf yn perthyn iddi, y Dominiciaid, wedi'i seilio'n benodol ar yr angen i wrthwynebu'r safbwynt hwn. I'r hereticiaid Albigensaidd a oedd yn cynyddu mewn dylanwad a nifer yn Ne Ffrainc adeg Sant Dominic, roedd y byd a'r cnawd yn anadferadwy oherwydd iddynt gael eu creu gan dduw satanaidd, sef duw'r Hen Destament. Nod y bod dynol oedd symud mor gyflym â phosibl tuag at y Duw mwyaf, sef Duw’r Testament Newydd – Duw’r Ysbryd. I ryddhau'r ysbryd o'r cnawd yr oedd wedi ei gaethiwo ynddo. Roedd gwadu’r Ymgnawdoliad, cred mewn drygioni rhyw a chred bod hunanladdiad yn ganmoladwy o dan rai amgylchiadau yn rhan o’r grêd.

I wrthwynebu hyn pregethodd y Dominiciaid y Gwir sef fod Duw yng Nghrist yn uno'r greadigaeth ag ef ei hun trwy'r Ymgnawdoliad. Yn ei farwolaeth, ei atgyfodiad a'i esgyniad yw’r porth i ni rannu ym mywyd Dwyfol Cariad. Ac mae’n rhoi’r modd i ni ac yn dangos i ni’r ffordd i’n galluogi i’w ddilyn – Efyn yr Ysbryd Glân, yr Eglwys a’r Gorchymyn Gras newydd – i ‘Garu’r Arglwydd ein Duw…. a'n Cymydog fel ni ein hunain'. Tra bod yr hereticiaid yn casáu'r Byd, fe'n gelwir ni i'w garu!

pan fyddwn yn dyst i hynny, mewn Gwirionedd pan y'i lleferir a Harddwch pan welwn ef. O'r rhain mae'n debyg mai Harddwch yw'r un hawsaf ei ddirnad. Meddyliwch am harddwch tirwedd, machlud haul bendigedig neu eglwys gadeiriol gothig efallai. Ond a gaf i awgrymu b yna rywle arall lle gallwn ni fyfyrio ar Dduw mewn Prydferthwch a chyfranogi o'i greadigaeth

Byth ers i Adda ac Efa gerdded ym mhresenoldeb yr Arglwydd yng Ngardd Eden mae gerd wedi bod yn lleoedd y gallwn nesáu at Dduw. Meddyliwch am y ffaith bod Iesu ei hun, wrt wynebu'r aberth eithaf, wedi dewis gardd, Gethsemane, i gymuno â'i Dad a'r Ysbryd a ranna Gwyddys fod Tadau'r Anialwch yn gofalu am eu gerddi. Canfu mynachod canoloesol hef fod gerddi yn amhrisiadwy, o ran cynhyrchu bwyd a meddyginiaeth ac fel mannau myfyrio.

Nid yw'n syndod felly, mewn cyfnod anodd fel rydym yn ei wynebu heddiw ac a wynebwyd yn arbennig yn yr unigedd a orfodwyd arnom gan Covid, fod llawer wedi canfod cysur yn e gerddi. Mae'r rhaglen deledu 'Gardeners World' wedi amlygu hyn drwy rannu fideos o bob rhan o'r byd wedi'u gwneud gan bobl gyffredin y bu eu gerddi yn amhrisiadwy i'w lles ysbrydol, meddyliol a chorfforol.

Felly hefyd i fy ngwraig Allison a minnau. Mae Gardd y Gaplaniaeth yn fan lle gallwn nesau Dduw trwy rannu yn ei greadigaeth yn y weithred o arddio ei hun (Allison yw'r prif arddwr), trwy ei greaduriaid sy'n byw yn yr ardd ac yn ymweld (hyd yn hyn rydym ni wedi cyfrif tua 40 rhywogaeth o adar), trwy ystyried harddwch pur rhai o'r planhigion a'r blodau, ac wrth flasu blas a ffresni'r llysiau rydym ni wedi'u tyfu.

Mae gennym ni hefyd nifer o gerfluniau crefyddol i'n hatgoffa o ardd pwy yw hi. Cerflun o'r Forwyn Fair a Christ y baban, un o Sant Ffransis gyda thurturod a chi bach, a baddon adar mae pâr o ddwylo, efallai rhai Duw, yn cwpanu ac yn ymgeleddu aderyn bach. Fy ffefryn serch hynny yw'r cerflun bychan o fynach o'r Oesoedd Canol, llyfr gwasanaeth yn ei law i'n hatgof o bwysigrwydd addoliad a mawl gwiw, ond sydd hefyd yn dal tancard o gwrw y tu ôl i'w gefn Atgof o'r ddysgeidiaeth Gatholig fod yr holl Greadigaeth yn dda yn ei hanfod, a bod Duw y rhoi hyn i ni i'w feithrin ac i ymhyfrydu ynddi. Mae rhai o'r mathau gorau o gwrw wedi cael eu bragu, ac yn dal i gael eu bragu, gan fynachod!

Felly y tro nesaf y cewch chi'r cyfle, ceisiwch dreulio ychydig o amser mewn gardd, boed yn eich gardd eich hun neu'n ardd gyhoeddus, meddyliwch am ei harddwch, yfwch a gwrw - Diolch i Dduw!

